



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Medi 2022

Annwyl Rhanddeiliaid

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu bod ar y 8 Medi, daeth y [Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(Cymru\)](#) yn 51fed Ddeddf gan y Senedd, a'r ddeddf gyntaf i gael ei phasio gan Lywodraeth bresennol Cymru. Dyma benllanw 5 mlynedd o waith gyda nifer ohonoch wedi cyfrannu. Rydym yn ddiolchgar am eich holl gyfraniadau hyd yma ac yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio wrth i ni symud i weithrediad y Ddeddf.

Bydd y Ddeddf yn creu stiward cenedlaethol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY). Bydd gan y Comisiwn safbwynt cydlynol a system gyfan, a bydd yn cefnogi dysgwyr gydol eu hoes gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i lwyddo, gan sicrhau darparwyr annibynnol ac amrywiol cadarn sy'n gwneud cyfraniadau sylweddol at les a ffyniant y genedl.

Cymru fydd yr unig genedl yn y DU â dosbarthiadau chwech mewn ysgolion, colegau, prifysgolion, prentisiaethau ac addysg oedolion yn cael eu rheoli fel un system unigol, gyda chyfrifoldeb hefyd am ymchwil ac arloesi.

Mae rhai o'r trefniadau hanesyddol o ran addysg drydyddol yng Nghymru wedi bod ar waith ers 30 mlynedd, cyn y cynnydd mawr mewn niferoedd disgyblion, datganoli, a newidiadau sylweddol mewn technoleg. Drwy adeiladu ar y rhagoriaeth â'r arbenigedd sydd gennym eisoes yng Nghymru, a thrwy osod mewn cyfraith werthoedd ac amcanion Llywodraeth Cymru am system addysg drydyddol ac ymchwil gydol oes fwy hygyrch ac o ansawdd uwch, bydd y Comisiwn yn gallu helpu i gyflawni [Gweledigaeth Strategol](#) Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Bydd gan y Comisiwn gyfrifoldeb cyfreithiol dros gyllido, arolygu, rheoleiddio, ac ansawdd addysg drydyddol yng Nghymru, law yn llaw â chofrestru darparwyr. Bydd yn sicrhau bod prentisiaethau Cymru yn gallu diwallu anghenion yr economi yn y dyfodol, gwella cyfleoedd i astudio'n ddwyieithog a phennu dyletswydd newydd i gyllido cyfleusterau priodol ar gyfer addysg bellach i oedolion.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi diben clir ar gyfer addysg ôl-16 ac ymchwil yng Nghymru.

Meddai Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg:

“Bydd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn dwyn ynghyd ystod o swyddogaethau a ffrydiau cyllid sydd ar wahân ar hyn o bryd ac yn ein galluogi i gyflawni ein gweledigaeth o un sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr ac sy'n cyd-fynd ag anghenion busnesau a chymunedau Cymru.”

Yn gywir



Zenny Saunders

Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio AHO a
Cyfarwyddwr Rhaglen, Rhaglen Weithredu CADY